

I osod hysbyseb yng Nghylchlythyr Cymunedol nesaf Dolwyddelan, neu i gael sylw fel Busnes Lleol y Chwarter, cysylltwch â **Shaun Hewitt**

**e-bost: shaunhewitt@me.co.uk**

**Ffon: 01690 750 519**

## Alison Richmond a Therapiau Tylino Eryri

Dw i wedi ymddiddori mewn therapiau holistig ers dros bymtheg mlynedd erbyn hyn, ers i mi dderbyn fy nhystysgrif gyntaf City & Guilds mewn Tylino'r Corff. Fodd bynnag, bu i fy ngwaith 'go iawn' gyda CADW fel Prif Geidwad Castell Biwmares ar Ynys Môn fy nghadw i'n brysur dros ben.

Ers i mi roi geni i'n plant a symud i Ddolwyddelan yn 2010, dw i wedi aros adref i ofalu am fy mhiant. Mae'r plant yn mynd i'r ysgol yn llawn amser erbyn hyn felly mae'n bryd i mi ddychwelyd i'r byd gwaith.

Fe wnes i ymuno gyda 'Neal's Yard Remedies' fel Ymgynghorydd Annibynnol bron i ddwy flynedd yn ôl. Pan wnes i sylweddoli bod llawer o fy nghydymgyngorwyr ym Mhrydain yn gweithio fel Therapyddion hefyd, roeddwn i'n meddwl y buasai'n syniad gwych i gyfuno therapy tylino a 'Neal's Yard Remedies' er mwyn sefydlu busnes. Yng ngwanwyn 2015 fe es i ati i ailhyfforddi ac ennill Tystysgrif mewn Tylino Swedaidd a Therapiau Cerrig Poeth. Dw i hefyd yn aelod yswiriedig o'r Undeb Therapyddion Holistig.

Lansiwyd Therapiau Tylino Eryri yn ystod yr haf y llynedd fel gwasanaeth therapi tylino symudol – mae gen i sofa a chadair gyfforddus dros ben fedra i gludo gyda mi. Dw i'n cynnig amrywiaeth o driniaethau o Dylino'r Cefn, Gwddw ac Ysgwyddau am £28 i Therapi Cerrig Poeth ar gyfer y Corff i gyd am £45. Bydd yr holl wasanaethau yn bodloni'ch union ofynion chi ac o gysur eich cartref gan ddefnyddio cynnyrch rhagorol organig 'Neal's Yard Remedies'. Fe fydd gen i bopeth fydd eu hangen ar gyfer eich triniaeth gan gynnwys tyweli a hyd yn oed cerddoriaeth swynol i chi fedru ymlacio iddi! Mae tylino yn ffordd arbennig o gynyddu lefel ocsigen yn eich gwaed, lleihau tocsinau yn eich cyhyrau, gwella cylchrediad eich gwaed a'ch ystwythder - i gyd gan leddfu unrhyw dyndra.

I wybod mwy ac i weld y cynigion diweddaraf, cysylltwch â mi ar **01690 750222** neu **07534 284188**



**Alison Richmond – Snowdonia Massage**

